

ASTUDIAETH ACHOS:

Cyfleuster Hydroleg Thermol Cenedlaethol y DU



GWYBODAETH ALLWEDDOL

SAFLE:

Parc Gwyddoniaeth (M-SParc), Ynys Môn, Gogledd Cymru

GWERTH Y PROJECT:

£40m

AMSERIAD/HYD Y PROJECT:

Parhaus

Trosolwg o'r project

Cyhoeddodd Cytundeb Sector Niwclear Llywodraeth y DU yn 2018 fwriad Llywodraeth y DU i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cyfleuster Hydroleg Thermol yng Ngogledd Cymru. Penodwyd Awdurdod Ynni Atomig y DU (UKAEA) gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynllun busnes ac amlinellu cynllun ar gyfer y cyfleuster ymchwil a phrofi sydd i'w adeiladu ym Mharc Gwyddoniaeth Menai (M-SParc) yng Ngogledd Cymru. Bydd y Cyfleuster Hydroleg Thermol Cenedlaethol (NTHF) yn dod â chyfleuster ymchwil a phrofi mawr i Ogledd Cymru a ddisgwylir i bara hyd at 50 mlynedd.

Manylion am y dull datrys/gweithredu

Disgwylir i'r cyfleuster ei hun greu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd uchel gyda buddion pellach i'r economi leol.

Bydd y caledwedd ymchwil ynghyd â chanolfan ymchwil ar gyfer hyd at 50 o wyddonwyr sy'n ymweld i wneud gwaith dadansoddi data, modelu cyfrifiaduron a gwaith efelychu. Bwriedir iddo fod y

mwyaf modern o'i fath yn y byd a chaiff ei ystyried fel rhan annatod o ddatblygiad uwch dechnolegau niwclear.

Mae hyn i gyd yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r Sefydliad Dyfodol Niwclear ym Mhrifysgol Bangor, gan sicrhau bod gan y rhanbarth y sgiliau a'r gallu i weithio yn y sector.